

# **CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI**

## **COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 9fed GORFFENNAF 2024** **AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

**1. PRESENNOL** - Dafydd Thomas (Cad) (Nebo), Justin Davies, Judith Humphreys, Dylan Herbert, Erfyl Williams, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Harry Owen, Nigel Williams (Talysarn), Gerallt Hughes (Nantlle), Cyng. Peter Thomas.

**YMDDIHEURIADAU** – Ceri Owen (Penygroes), Siân Dafydd, Gareth Jones (Talysarn)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd Dafydd Thomas

**2. DATGAN BUDDIANT** - Dylan Herbert yn datgan diddordeb ym mhwynt 3 - Hwb rygbi

**3. GWADD - IEUAN JONES, HWB RYGBI** - Croesawyd Ieuan Jones i'r cyfarfod a rhoddwyd y sgwrs drosodd iddo. Esboniodd ei fod wedi dod i'r cyfarfod i hybu rygbi yn Nyffryn Nantlle ac i ofyn i'r cyngor cymuned am gymorth ariannol gyda hyn os yn bosib. Esboniodd bod prosiect yn digwydd i hybu rygbi o fewn ysgolion y dyffryn a'u bod yn cyflogi swyddog yn arbennig ar gyfer y gwaith hwn. Nodwyd nad yw sefyllfa ariannol yr ysgolion yn medru ariannu hyn i gyd. Diolchodd am y cyfle i gael dod i siarad a bu iddo ef a Dylan adael y cyfarfod tra roedd y cyngorwyr yn trafod. Trafodwyd bod arian wedi ei roi i un ochr yn flynyddol ar gyfer y clwb ieuencid ond nad yw wedi ei ddefnyddio. Cynigwyd ac eiliwyd i roi swm o arian am eleni i'r prosiect a gofyn am adroddiad erbyn tymor y Nadolig o faint o blant yr ardal sydd yn elwa o hyn. Galwyd y ddau yn nôl i'r cyfarfod i adrodd yn nôl iddynt a diolchwyd i Ieuan am ddod.

**4. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 11eg MEHEFIN 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD** – Sedd wag Ward Llanllyfni – roedd un enw wedi dod i law, Tesni Glyn – cytunwyd yn unfrydol i'w gwahodd ar y cyngor ar ran Ward Llanllyfni.

**6. ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** - diolchwyd i'r Cyng. Thomas am ei adroddiad yr oedd pawb wedi ei dderbyn ymlaen llaw i'r cyfarfod. Nid oedd cyfarfod wedi bod i drafod y system unffordd Ysgol Talysarn - ond bydd yn digwydd ddiwedd yr wythnos yma a bydd yn adrodd yn nôl yng nghyfarfod mis Medi. Defaid rhydd yn Nantlle - y mater yma wedi ei roi yn nwylo'r heddlu erbyn hyn. Goryrru yn Nantlle - ceisio cael y fan "Gan Bwyll" i ddod i'r ardal ond eisiau cael safle i'w pharcio pan yn dod yno. Cylchdro Llanllyfni / Penygroes yn gywilydd i'w weld a hwnnw yn fynediad i Ddyffryn Nantlle. Cyngor Gwynedd wedi dweud eu bod yn do di dorri'r gwair yn yr wythnos nesaf, ond mae hefyd angen i'w thacluso. Cytunodd Judith i holi Ffrindiau Penygroes os fysa yna griw yn fodlon gwirfoddoli i'w thacluso, hefyd efallai rhywun o Gyfeillion Nantlle. Esboniwyd bod sôn fod gwaith mewn llaw i osod cerflun ar y cylchdro - felly efallai yn syniad disgwyl i weld beth fydd yn digwydd gyda hyn cyn gwneud gormod o waith yno. Diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei waith.

**7. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU** – yn dilyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd 25ain Mehefin i drafod yr archwiliad mewnol adroddwyd fod pethau wedi eu gyrru i'r archwilwyr allanol a disgwyl nawr i glywed nôl ganddynt.

**8. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID - Clwb Ieuencid** - wedi cael gwybod y bydd eisiau talu oddeutu £5000 tuag at gynnal y clwb eleni. Arian wedi ei glustnodi ar gyfer hyn yn barod. **Capel Baladeulyn - cais am gefnogaeth ariannol** - wedi derbyn cais am gyfraniad ariannol i dacluso a pheintio'r railings o gwmpas y capel - trafodwyd y cais a phenderfynwyd yn unfrydol i gyfrannu gan fod arian wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau pentrefi. **Cais am arian i redeg diffib Llanllyfni** - unwaith eto trafodwyd y cais hwn a phenderfynwyd yn unfrydol i gyfrannu o'r pot prosiectau pentrefi gan fod yna arian yna ar gyfer pethau o'r math yma.

**9. LLWYBRAU A MYNWENTYDD - Cae Macpela** - cytundeb y cae yn dod i ben ddiwedd mis Awst felly trafodwyd, cynigwyd a phenderfynwyd hysbysebu'r tendr. Mae'r beipen ddŵr nawr wedi ei gosod a modd cael dŵr i'r cae. Rhoi hysbyseb ar y wefan, Llew a thudalen Facebook. **Sbwriel Mynwent Macpela** - y sefyllfa gyda phobl yn gadael sbwriel yn gwella dim yn y fynwent felly wedi derbyn prisiau gan Gyngor Gwynedd i gael bin a chasgliadau. Trafodwyd y prisiau a chynigwyd i gael un bin 240ltr gyda chasgliad pob bythefnos i weld. Eiliwyd y cynnig a chytunodd pawb. Hefyd cynigwyd i gael clo gyda

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - \_\_\_\_\_ Dyddiad - \_\_\_\_\_

chod arno ar y giât er mwyn i weithwyr y cyngor fedru cael mynediad i'r fynwent i nôl y bin. Eiliwyd a chytunwyd i hyn hefyd.

**10. MATERION PENTREFI - Penygroes** - drip wrth y gyli ger 18 Trem Yr Wyddfa dal heb gael ei drwsio a hefyd un ar y tro i mewn i'r cul-de-sac yno. Balch iawn o weld fod y ffordd tu allan i'r co-op wedi cael ei thrwsio. **Talysarn** - cwynion wedi eu derbyn bod canclwm yn tyfu i mewn i erddi pobl wrth Dan Weirglodd - Cyng. Peter Thomas am edrych fewn a holi am hyn. Tyllau yn Cavour Street wedi eu hatgyweirio. Twll yn y ffordd gyferbyn a Bro Silyn ac angen sylw - Cyng. Peter Thomas am edrych fewn i gael hwn wedi ei sortio. **Llanllyfni** - y twll ar Lôn Ddŵr yn gwaethygu. Dŵr yn gollwng wrth ymyl Felin Gerrig ac angen sylw. Y clerch i gysylltu gyda'r gwahanol sefydliadau am y materion dan sylw.

**11. TIR CWTIN** - (bu i Justin Davies adael y cyfarfod). Nid oedd dim i'w adrodd ar hyn y mis yma.

**12. CEISIADAU CYNLLUNIO**

- C24/0439/22/LL - Uned 4a Ystâd Ddiwydiannol Penygroes - codi adeilad gorsaf MOT garej/gweithdy newydd fel estyniad i'r safle presennol ynghyd â mwy o ddarpariaeth parcio - DIM GWRTHWYNEBIAD.

**13. GOHEBIAETH** – nid oedd dim yn codi gyda'r ohebiaeth.

**14. MATERION ARIANNOL** - pasiwyd i dalu'r isod

- Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = £25.00

- Alan Jones – gosod peipen ddŵr Mynwent Macpela = £1200.00

**15. UNRHYW FATER ARALL** - Cynigwyd ac eiliwyd i wahodd PCSO Katie Baddiley i gyfarfod mis Medi. Hefyd, Tim Heatley, Dorothea wedi gofyn i gael do di gyfarfod felly cynigwyd i'w wahodd o i'r cyfarfod ym mis Hydref. Cytunwyd gyda hyn.

Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Fawrth, 10fed Medi am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - \_\_\_\_\_ Dyddiad - \_\_\_\_\_